# 25 mlynedd o ariannu treftadaeth y DU: ein ffilm

13/11/2019



Cynhaliwyd y gêm #LoteriGenedlaethol gyntaf ar 19 Tachwedd 1994. Ers hynny, mae £8 biliwn o werthiannau tocynnau wedi'i ddyfarnu i fwy na 44,000 o brosiectau treftadaeth, gan wella bywydau miliynau o bobl ledled y DU.

Fel ariannwr grant penodol mwyaf treftadaeth y DU, mae ein dosbarthiad o gyllid y Loteri Genedlaethol wedi cyrraedd pob cornel o'r wlad.

Dros y 25 mlynedd diwethaf rydym wedi helpu i sicrhau manteision sylweddol i adeiladau hanesyddol a gwerthfawr, bywyd gwyllt a chynefinoedd, parciau a'r awyr agored, amgueddfeydd o safon fyd-eang, diwylliant ac atgofion a threftadaeth gymunedol.

## Rhannwch eich hoff atgofion

Beth yw eich hoff atgof Loteri Genedlaethol yn ystod y chwarter canrif diwethaf? Agoriad prosiect gwych, gwirfoddoli yn eich parc lleol, dysgu sgil treftadaeth newydd, tynnu llun trawiadol a gymerasoch ar gamera? Rhannwch y rhain ar y cyfryngau cymdeithasol a dathlwch gyda ni drwy ddefnyddio #LoteriGenedlaethol25.

# #DiolchiChi, chwaraewyr y Loteri Cenedlaethol

Mae miloedd o lefydd gwerthfawr a hanesyddol wedi cael eu hariannu gan y Loteri Genedlaethol ers 1994. Mae gan lawer ohonynt gynigion arbennig ar gyfer chwaraewyr y Loteri Genedlaethol yr hydref hwn i ddweud diolch yn fawr - ewch i [wefan Diolch i Chi] i ddod o hyd i rywle sy’n lleol i chi.



## ddordeb hefyd mewn ...

## [25 mlynedd: Sêr yn lansio cynigion am ddim i chwaraewyr y Loteri]



## [ethol yn 25 oed]



Chris Packham a Jamal Edwards yn dathlu 25 o ariannu natur